Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd

Canolfan Asesu Doc Penfro

Cyfeiriad

Canolfan Arloesi Bridge
Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Sir Benfro,
Doc Penfro
SA72 6UN

Oriau agor

9:00yb i 5:00yh

Nodiadau o'r Ganolfan hon

Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad drwy ddrws awtomatig neu garwsél. Mae'r dderbynfa yn uniongyrchol o'ch blaen.

Rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad. Mae mynediad heb risiau i'r adeilad.

Mae'r holl ystafelloedd asesu wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.

Mae parcio i ymwelwyr am ddim a pharcio i bobl anabl ill dau ar gael yn y ganolfan.

09/2025_SA72 6UN_WELSH_LP

Cyfarwyddiadau ar drên

Yr orsaf drên agosaf yw Doc Penfro (SA72 6HA), sydd tua 1 filltir o'r ganolfan asesu. Sylwch fod y daith gerdded o'r orsaf i'r ganolfan asesu yn un serth.

Am fanylion gwasanaeth trên, ewch i https://www.nationalrail.co.uk/stations.

Cyfarwyddiadau ar fws

Y safle bws agosaf i'r ganolfan asesu yw Taliadau Pont Cleddau. Mae'r safle hwn yn cael ei wasanaethu gan lwybrau bws 349 a 356. Mae tua hanner milltir o'r ganolfan asesu.

Am wybodaeth am fysiau, ewch i: https://www.traveline.info.

Cyfarwyddiadau ar gar

Mae'r ganolfan asesu wedi'i lleoli oddi ar yr A477 ar Barc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro.

Wrth agosáu at y gylchfan o Bont Cleddau ar yr A477, cymerwch yr allanfa gyntaf.

Wrth agosáu at y gylchfan o Doc Penfro, cymerwch y drydedd allanfa.

Yn y gylchfan nesaf, cymerwch y drydedd allanfa a pharhewch ar hyd y ffordd nes eich bod yn gweld yr adeilad ar y chwith.

Mae'n ganolfan busnes ddiwydiannol wedi'i hadeiladu o frics a gwydr, wedi'i lleoli i'r de o'r bont doll sy'n pontio dyfroedd Aberdaugleddau.

Manylion cywir ar adeg argraffu, Medi 2025.

Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn cael ei ddarparu gan Capita ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau

www.haas.capita.co.uk/cy